Salwch yn y gwaith

Gewch chi eich talu os ydych i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch?

Os ydych chi i ffwrdd o'ch gwaith am bedwar diwrnod o'r bron neu fwy ac yn ennill mwy na £107 yr wythnos, mae gennych hawl i **Dâl Salwch Statudol (TSS).** Arian a delir yn ôl gan gyflogwyr i'r gweithwyr sydd i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch ydyw TSS. Dyma'r isafswm y gellir ei dalu i chi pan fyddwch chi i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch. Gall eich cytundeb cyflogaeth roi hawliau ychwanegol i fwy o dâl salwch na hyn (**tâl salwch cytundebol**). Dylech wirio eich cytundeb i weld beth yw'ch hawl.

Gall y rhan fwyaf o weithwyr hawlio TSS, yn cynnwys gweithwyr rhan amser, gweithwyr ar gytundeb cyfnod-penodol a gweithwyr asiantaeth. Gall TSS barhau i fyny hyd at 28 wythnos. Gall tâl cytundebol barhau yn hwy. Bydd angen i chi wirio eich cytundeb cyflogaeth i weld a ydyw hyn yn berthnasol i chi.

Os na allwch chi gael TSS, neu os ydych chi wedi bod i ffwrdd oherwydd salwch am fwy na 28 wythnos, fe fydd eich cyflogwr yn rhoi ffurflen TSS1 i chi gan ddweud pam. Fe allwch chi ddefnyddio'r ffurflen TSS1 i hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) oddi wrth eich swyddfa budd-daliadau lleol os nad oes gennych hawl i TSS na thâl salwch cytundebol.

Faint o dâl salwch fyddwch chi'n ei dderbyn?

Fe gewch chi eich talu naill ai TSS, neu, os yw'ch cytundeb cyflogaeth yn rhoi mwy o arian i chi pan fyddwch chi i ffwrdd oherwydd salwch, fe gewch chi'r swm sydd wedi ei nodi yn eich cytundeb. Mae'n bosibl nad eich cyfradd arferol o dâl fydd hwn, ond ni ddylai fod yn llai na'r TSS. Mae hwn yn £85.85 yr wythnos.

Fedrwch chi ddim cael TSS am y tri diwrnod cyntaf o salwch. Am y tri diwrnod hwn fe fydd gennych hawl i dâl salwch os yw'ch cytundeb cyflogaeth yn caniatáu hynny yn unig. Ar ôl hyn, fe ddylech gael y gyfradd ddyddiol o TSS ar gyfer pob diwrnod y byddwch i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch pan fyddech chi fel arfer yn gweithio.

Os mai TSS yw eich unig incwm pan fyddwch i ffwrdd oherwydd salwch, fe allech chi hawlio budd-daliadau eraill megis Budd-dal Tai. Er mwyn gwybod pa fudd-daliadau eraill y mae gennych hawl iddynt, gweler Cymorth Pellach ar ddiwedd y daflen ffeithiau hon.

Dweud wrth eich cyflogwr eich bod i ffwrdd yn sâl

Os yn bosib, dylech **ddweud wrth eich cyflogwr yn syth** os ydych yn sâl ac nid ydych yn medru mynd i'r gwaith. Efallai y byddwch yn colli tâl salwch os nad ydych yn gwneud hyn (gweler isod). Gall eich cyflogwr gael rheolau ynglŷn â beth i'w wneud os na allwch chi ddod i'r gwaith oherwydd salwch. Fe allan nhw, er enghraifft, fynnu eich bod yn dweud wrthynt eich bod yn sâl ar y diwrnod cyntaf na fedrwch weithio. Rhaid i'ch cyflogwr roi gwybod i chi beth yw'r rheolau hyn ymlaen llaw. Os

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

na fyddwch chi'n cadw at y rheolau, fe fyddwch yn torri amodau eich cytundeb cyflogaeth.

Os ydych chi'n derbyn TSS, all eich cyflogwr ddim gwrthod talu TSS i chi os na fyddwch chi:

- yn darparu tystysgrif feddygol hyd nes wythfed diwrnod eich salwch
- yn ffonio erbyn amser penodol o'r dydd i ddweud wrthynt eich bod yn sâl
- yn ffonio fwy nag unwaith yr wythnos pan fyddwch chi i ffwrdd oherwydd salwch
- ffonio'n bersonol a gofyn i rywun arall ei wneud ar eich rhan.

Sut bynnag, gall eich cyflogwr wneud rheolau fel y rhain ar gyfer talu unrhyw dâl cytundebol y mae gennych hawl iddo.

Tystysgrifau meddygol

Enw arall ar dystysgrifau meddygol yw **nodyn iach**. Ar dystysgrif feddygol, gall eich meddyg ddweud eich bod: ddim yn ddigon iach i weithio neu efallai eich bod yn ddigon iach i weithio cyhyd ag y gwneir rhai newidiadau arbennig i'ch gweithle.

Mae i fyny i chi a'ch cyflogwr i benderfynu pa newidiadau y dylid eu gwneud. Os bydd eich cyflogwr yn gwrthod gwneud y newidiadau sy'n cael eu hargymell gan eich meddyg, ystyrir eich bod o hyd heb fod yn ddigon iach i weithio ac fe fyddwch yn gallu parhau i dderbyn Tâl Salwch Statudol.

Os ydych yn gwella ynghynt na'r disgwyl, fe allwch ddychwelyd i'r gwaith cyn y dyddiad terfyn ar eich tystysgrif feddygol os yw eich cyflogwr yn cytuno. Fodd bynnag, fe all fynnu eich bod yn cael tystysgrif newydd oddi wrth eich meddyg teulu er mwyn cadarnhau eich bod yn ddigon iach i ddychwelyd i'r gwaith.

All eich cyflogwr wrthod eich talu os ydych chi i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch?

Os ydych i ffwrdd yn sâl oherwydd anabledd

Os ydych yn anabl ac mae'ch cyflogwr yn gwrthod rhoi tâl salwch i chi pan fyddwch i ffwrdd yn sâl am reswm sy'n gysylltiedig â'ch anabledd, efallai y bydd yn torri'r gyfraith. Efallai y byddwch yn medru cwyno i **dribiwnlys cyflogaeth** am driniaeth annheg oherwydd eich salwch **(gwahaniaethu ar sail anabledd),** ond fe ddylech chi godi achwyniad ysgrifenedig gyda'ch cyflogwr yn gyntaf. Fe ddylech chi gael help oddi wrth ymgynghorydd profiadol (gweler Cymorth Pellach ar ddiwedd y daflen ffeithiau hon).

Os nad ydych yn dweud wrth eich cyflogwr eich bod yn sâl yn syth

Os nad ydych chi'n dweud wrth eich cyflogwr yn syth eich bod i ffwrdd yn sâl, fe allech chi golli rhywfaint neu'r cyfan o naill eich TSS neu dâl salwch cytundebol, oddieithr fod gennych reswm da dros beidio dweud wrthynt. Gall eich cyflogwr wrthod talu tâl salwch cytundebol am y diwrnodau yr ydych i ffwrdd a heb gysylltu i

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

ddweud eich bod yn sâl.

Os ydych i ffwrdd o'r gwaith am sawl cyfnod byr o amser
Os ydych i ffwrdd yn sâl am fwy na phedwar cyfnod byr (pedwar i saith diwrnod) mewn blwyddyn, mae eich cyflogwr yn medru cysylltu â'r Gwasanaethau Meddygol i edrych i mewn i'r rhesymau yr ydych wedi eu rhoi dros golli gwaith. Mae eich cyflogwr yn cysylltu â'r Gwasanaethau Meddygol trwy Gyllid a Thollau EM (HMRC). Efallai y bydd y Gwasanaethau Meddygol am gysylltu â'ch Meddyg Teulu i holi am eich cyflwr meddygol. Ni all y Gwasanaethau Meddygol gysylltu â'ch meddyg os nad ydych yn rhoi caniatâd iddynt. Os yw adroddiad y Gwasanaethau Meddygol yn dweud eich bod wedi bod i ffwrdd o'r gwaith heb reswm da, efallai y bydd eich cyflogwr yn gwrthod talu TSS i chi. Fe fyddwch yn medru apelio yn erbyn y penderfyniad hwn os ydych yn credu fod y penderfyniad yn un anghywir.

Os ydych i ffwrdd o'r gwaith am gyfnodau hir o amser
Os ydych i ffwrdd o'r gwaith am gyfnodau hir o amser, gall eich cyflogwr gysylltu â'r Gwasanaethau Meddygol i benderfynu os ydych yn ddigon iach i wneud eich gwaith. Os yw adroddiad y Gwasanaethau Meddygol yn dweud eich bod wedi bod i ffwrdd o'r gwaith heb reswm da, efallai y bydd eich cyflogwr yn gwrthod talu TSS i chi. Fe fyddwch yn medru apelio yn erbyn y penderfyniad hwn os ydych yn credu fod y penderfyniad yn un anghywir.

Yr hyn fedrwch chi ei wneud os nad yw'ch cyflogwr yn fodlon talu TSS i chi
Os ydych yn credu y dylech fod yn cael TSS ond nid yw'ch cyflogwr yn fodlon ei dalu, dylent roi datganiad i chi ar ffurflen TSS1 yn esbonio pam. Fe ddylech chi ddefnyddio'r ffurflen hon hefyd i hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, a gwneud yn glir eich bod am i HMRC ail ystyried eich hawl i TSS. Fe ddylech anfon y ffurflen i'ch swyddfa Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) lleol.

Os nad yw'r Swyddfa Adran Gwaith a Phensiynau yn sicr am eich hawl i TSS, fe fydd yn anfon copi o'ch ffurflen at swyddfa cyfraniadau yswiriant gwladol HMRC. Er mwyn bod yn ddiogel, fe ddylech chi hefyd anfon copi o'ch ffurflen at eich Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol lleol (fe fydd unrhyw swyddfa HMRC leol yn medru rhoi'r cyfeiriad i chi)

Os yw'ch cyflogwr yn gwrthod rhoi ffurflen TSS1 i chi, dylech anfon cais ysgrifenedig am benderfyniad i'ch swyddfa cyfraniadau yswiriant gwladol lleol a gofyn am Lwfans Cyflogau a Chymorth oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae penderfyniad HMRC yn rhwymo'ch cyflogwr yn gyfreithiol. Mae gan y ddau ohonoch yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad.

Os oes hawl gennych i TSS ac mae'ch cyflogwr yn gwrthod ei dalu, fe fyddwch yn medru cyflwyno honiad o ddidyniad cyflog anghyfreithlon gerbron tribiwnlys cyflogaeth. Fe ddylech godi achwyniad gyda'ch cyflogwr yn gyntaf. Gall HMRC ddirwyo cyflogwr sy'n methu â thalu eich TSS dro ar ôl tro.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Os ydych i ffwrdd o'r gwaith yn sâl tra'ch bod i ffwrdd ar wyliau

Os ydych ar gyfnod o wyliau ac rydych yn mynd yn ddigon sâl i fod i ffwrdd o'r gwaith, gallwch ofyn i'ch cyflogwr drin eich amser i ffwrdd o'r gwaith fel cyfnod salwch ac nid gwyliau. Yna, fe allwch ofyn i'ch cyflogwr roi amser i ffwrdd ychwanegol i chi i wneud iawn am yr amser yr oeddech i ffwrdd yn sâl.

Sut bynnag, os ydych am drin eich amser i ffwrdd o'r gwaith fel cyfnod salwch yn lle gwyliau, gall eich cyflogwr dalu tâl salwch i chi yn lle tâl gwyliau am y cyfnod yna. Gallai tâl salwch fod yn llai na'ch tâl arferol.

Dylai'ch cytundeb cyflogaeth ddweud sut a phryd ddylech chi ddweud wrth eich cyflogwr eich bod yn mynd i fod i ffwrdd o'r gwaith yn sâl, a pha brawf sydd ei angen arnynt .

Os ydych yn cael eich diswyddo am gymryd amser i ffwrdd yn sâl

Os ydych yn cael eich diswyddo tra'ch bod yn derbyn Tâl Salwch Statudol (TSS), rhaid i'ch cyflogwr roi ffurflen TSS1 i chi. Mae hyn yn esbonio pam nad yw TSS yn cael ei dalu mwyach. Dylech lenwi'r ffurflen a mynd â hi i'ch swyddfa budd-daliadau lleol i hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Os ydych yn credu eich bod wedi cael eich diswyddo am eich bod yn sâl, neu am eich bod wedi gofyn am TSS, efallai y byddwch yn medru cwyno i **dribiwnlys cyflogaeth.**.Fe ddylech chi **siarad ag ymgynghorydd cyflogaeth profiadol yn syth**. Gweler isod am fanylion.

Os ydych yn cael eich diswyddo oherwydd eich anabledd
Os ydych yn anabl ac mae'ch cyflogwr yn eich diswyddo am gymryd amser i ffwrdd yn sâl am reswm yn ymwneud â'ch anabledd, efallai y bydd eich cyflogwr yn torri'r gyfraith. Efallai y byddwch yn medru cwyno gerbron **tribiwnlys cyflogaeth** am driniaeth annheg oherwydd eich anabledd (**gwahaniaethu ar sail anabledd**). Fe ddylech chi godi achwyniad ysgrifenedig yn gyntaf. Fe ddylech chi gael help oddi wrth ymgynghorydd profiadol (gweler isod).

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf , neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Datrys anghydfodau yn y gwaith
- I ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch
- Gwahaniaethu ar sail anabledd
- Cyflogwr yn dal eich cyflog yn ôl
- Budd-daliadau i bobl sy'n sâl neu'n anabl.

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith.

Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr, Cymru a'r Alban yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 6 Ebrill 2012, a chaiff ei hadolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio p'un ai yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir ai peidio. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho'r copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr